**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Hydref 2014

Annwyl Alun

**Ymchwiliad i ailgylchu yng Nghymru – rhagor o wybodaeth**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 2 Hydref. Rwyf wedi rhoi atebion i'ch cwestiynau isod, yn yr un drefn.

## 1. Dewisiadau deiliad y tŷ

Mae materion gwahanol i'w trafod ynghylch dewisiadau deiliad y tŷ sydd angen eu hystyried. Y cyntaf yw yr egwyddor o ymgynghori â phreswylwyr ynghylch gwasanaethau ac yn ail y mater cyfreithiol mwy cyfyng sydd yn y canllawiau drafft ar gasgliadau ar wahân.

Mae'n ymarfer da i awdurdodau lleol ymgynghori â'u preswylwyr a gwrando arnynt, a bod dewisiadau deiliaid tai yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn ofyniad o ran yr amcanion gwella sy'n cael eu pennu ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (nid Mesur 2011). Gall y cyhoedd gyfrannu syniadau newydd sy'n golygu bod modd i wasanaethau fod yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod eu gwasanaethau rheoli gwastraff yn gweithredu o fewn y gyfraith. Mae Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 yn rhoi effaith i'n hymrwymiadau i'r Undeb Ewropeaidd o dan Gyfarwyddeb 2008/989/EC. Mae'r Gyfarwyddeb honno yn ei gwneud yn ofynnol i aelod wladwriaethau gasglu gwastraff ar wahân os yw hynny'n ymarferol yn dechnegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd. Mae canllawiau drafft Rheoliadau 2011 yn datgan na fydd dewisiadau deiliaid tai yn amddiffyniad o ran methiant i gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw. Mae fy swyddogion yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y canllawiau drafft ar hyn o bryd.

Pan fydd yn rhaid i wasanaethau newid er mwyn cydymffurfio, bydd angen i awdurdodau lleol egluro i ddeiliaid y tai pam a sut er mwyn iddynt fodloni â'r newidiadau. Mae'n rhesymol i ddisgwyl i'r awdurdod lleol fynd i'r afael â chyfraddau cyfranogi isel neu ymysylltu aneffeithiol gyda'u gwasanaethau rheoli gwastraff er mwyn cyflawni hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Mae awdurdodau eisoes yn gwneud hyn ledled cymru gan bod nifer o wasanaethau'n newid, er enghraifft sut y caiff y gwastraff gweddilliol ei gasglu, ac mae'n bwysig i awdurdodau lleol drafod yn rheolaidd ac yn fanwl gyda'u preswylwyr. Mae'n amlwg o brofiad ledled Cymru bod deiliaid tai yn hapus gyda gwasanaethau didoli ar garreg y drws, a'u bod yn defnyddio gwasanaethau o'r fath pan fyddant yn cael eu rhedeg yn effeithiol ac yn cael eu hegluro'n iawn.

Mae'r Rhaglen Newid Gydweithredol ar gyfer gwastraff yn helpu awdurdodau lleol i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys Glasbrint Casgliadau Llywodraeth Cymru, i'w cymharu â'u gwasanaethau presennol, o fewn y cyd-destun penodol ac amgylchiadau eu hardal a'r boblogaeth, i sicrhau y gost a'r gwerth am arian gorau un, a bod cynghorau yn cyrraedd eu targedau ailgylclhu yn y dyfodol.

Gallaf sicrhau'r Pwyllgor fod y Llywodraeth yn ystyriol o'r dyletswyddau cyfreithiol sy'n cael eu gosod ar awdurdodau lleol o dan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 ac o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Nid yw'n anghyffredin i fwy nag un darn o gyfraith reoleiddiol fod yn berthnasol i sefyllfa benodol, ac nid ydym yn gweld unrhyw anhawster i gael yr awdurdod lleol i gydymffurfio â'r ddau. Gall yr awdurdodau lleol ddangos eu bod yn cydymffurfio â Mesur 2009 drwy ystyied safbwyntiau a dewisiadau deiliaid tai wrth benderfynu sut y maent yn cydymffurfio â Rheoliad 13 Rheoliadau 2011.

## 2. Cydweithio ag Awdurdodau Lleol

Mae awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn edrych ar ffyrdd y gallwn gydweithio i wneud y gorau o'r incwm o werthu deunyddiau y gellir eu hailgylchu. Mae gwelliannau posib y gallem eu gwneud hefyd i sicrhau bod deunyddiau sy'n cael eu casglu yng Nghymru yn cael eu hailgylchu a'u hailbrosesu yma, ac ar gael i weithgynhyrchwyr yng Nghymru. Bydd hyn, yn ogystal â chynigion Bil yr Amgylchedd yn gwneud cyfraniad mawr i helpu i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran 'twf gwyrdd' a chreu swyddi gwyrdd yng Nghymru. Tra rydym yn ystyried yr opsiynau, mae Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau wedi dechrau helpu awdurdodau lleol yn ddiweddar i farchnata eu deunyddiau fel rhan o'r broses o gyflawni'r Rhaglen Newid Gydweithredol. Bydd Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau yn adrodd ar effeithiau'r gwaith hwn dros y flwyddyn nesaf.

## 3. Grant rheoli Gwastraff Cynaliadwy (SWMG)

Cafodd y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy ei gyflwyno yn 2001/02 i helpu awdurdodau lleol i gyrraedd y targedau atal gwastraff ac ailgylchu a bennwyd yn strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru bryd hynny, 'Yn Gall gyda Gwastraff' a gyhoeddwyd yn 2002 (wedi'i ddisodli yn 2010 gan Tuag at Ddyfodol Diwastraff). Mae'r targedau newydd yn dangos y newid mawr o'r hen ffyrdd o gasglu a gwaredu gwastraff a dealltwriaeth y sector o'r technolegau sydd ar gael, ac roedd y gwasanaethau newydd fyddai eu hangen yn llawer mwy cyfyngedig nad ydynt heddiw. O ganlyniad, cymharol ychydig o amodau am gyflunio gwasanaethau yn gysylltiedig â'r grant, a dyluniad y gwasanaethau, sy'n cael eu penderfynu ar lefel leol.

Mae rhai amodau wedi'u hychwanegu yn ddiweddar i eithrio rhai mathau o dechnolegau ac arferion sydd wedi dangos nad ydynt yn rhoi canlyniadau amgylcheddol neu economaidd da, neu i osgoi cost di-angen, er enghraifft drwy beidio â chaniatâu i grant gael ei ddefnyddio i ariannu 'MRFs budr' (cyfleusterau ailgylchu mecanyddol ar gyfer gwastraff cymysg a oedd yn ceisio didoli gwastraff cymysg gan gynnwys bwyd, ailgylchu sych a gwastraff gweddilliol gyda'i gilydd) o 2006-07. Dywedodd Llywodraeth Cymru hefyd yn 2007-08 na fyddai bellach yn cefnogi buddsoddi mewn MBT (triniaeth fecanyddol a biolegol).

Mae'r profiad y gwahanol fathau o gasglu a didoli gwastraff a deunydd eildro dros y ddegawd ddiwethaf wedi golygu ein bod yn deall yn llawer gwell yr opsiynau sydd, a'r opsiynau gorau. Mae hyn yn cynnwys y costau ariannol ac amgylcheddol, a manteision gwahanol opsiynau ac arfer da. Mae'r tueddiad wedi bod tuag at wasanaethau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy sy'n galw am wahanu gwastraff yn gynt a gwahanu gwahanol ddeunyddiadu i'w hailgylch yn gynt yn y gadwyn gyflenwi. Mae llawer mwy o bwyslais bellach ar ddefnyddio adnoddau'n effeithiol, a'r economi gylchol neu dolen gaeedig yn hytrach na dim ond ystyried sut y byddwn yn casglu ac yn cael gwared ar ein gwastraff, sy'n golygu bod pwyslais ar wneud pethau'n wahanol. Mae datblygu'r syniadau a'r technolegau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Glasbrint Casgliadau a gafodd ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2011.

Roedd cynnydd sylweddol yn lefel y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy yn y cyfnod 2008–2012, yn enwedig i gynnal y broses o gasglu gwastraff bwyd ar wahân o gartefi. Bellach mae dros 96% o gartrefi Cymru yn rhan o'r broses hon, ac mae'n un o'r elfennau sydd wedi helpu i godi lefelau ailgylchu yng Nghymru mor ddramatig, ac i sicrhau bod Cymru yn cyrraedd targedau yr UE o ran dargyfeirio bio-wastraff o safleoedd tirlenwi. Yn ei dro, mae'n helpu Cymru i osgoi dirwyon gan y Comisiwn Ewropeaidd am fethu â chyrraedd targedau dargyfeirio.

Wedi cyhoeddi'r Glasbrint Casgliadau, y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddewis i hyrwyddo y defnydd ohono hyd yma yw helpu awdurdodau lleol i'w ddefnyddio yn eu hardaloedd, ochr yn ochr â'r gwasanaethau presennol, ac unrhyw opsiynau eraill y maent yn dymuno eu hystyried, gan ystyried ffactorau lleol. Mae'r dull hwn o gydweithio yn dechrau talu ffordd, gyda'r awdurdodau cyntaf yn dod drwy'r broses o werthuso opsiynau a chynllunio busnes ac yn symud ymlaen tuag at ddefnyddio gwasanaethau eraill. Mae'n bosib gweld y manteision yn y canlyniadau amylcheddol gwell a'r gostyngiad yng nghostau'r gwasanaethau wrth i'r gwasanaethau symud tuag at gasglu ar wahân.

Cafodd amodau'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy eu haddasu yn 2012-13 i hyrwyddo dull Glasbrint Llywodraeth Cymru:

“Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i gynlluniau casglu ailgylchu a chompostio (a threulio anaerobig) sy'n cael eu didoli o'r cychwyn cyntaf er mwyn darparu deunyddiau o safon uchel i ail-broseswyr. Mae hyn yn golygu bod mantais o ran gostwng allyriadau carbon o ailgylchu a chompostio (a threulio anaerobig). Dewis Llywodraeth Cymru yw defnyddio dulliau didoli ar garreg y drws ar gyfer ailgylchu yn unol â'r "Glasbrint Casgliadau" a gyhoeddwyd ar 10 Mawrth 2011."

Yn 2013-14 cafodd yr amodau eu cryfhau i beidio ag annog awdurdodau lleol a oedd yn cynnal casgliadau ar wahân rhag newid i ddulliau ailgylchadwy cymysg:

“Nid bwriad y Cyllid hwn yw newid o wasanaethau ail-gylchadwy cymysg i wasanaethau ailgylchu didoli ar garreg y drws. Os oes awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth ailgylch ar garreg y drws ar hyn o bryd, ni chaiff ddefnyddio'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy i newid i wastraff ailgylchadwy cymysg."

Hefyd, dywedwyd wrth awdurdodau lleol ym mis Chwefror 2011 yn ystod cyfarfod Gweinidog yr Amgylchedd bryd hynny gydag aelodau cabinet yr awdurdodau lleol y byddai lefelau ariannu y Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy yn cael ei ostwng mwy a mwy dros y blynyddoedd nesaf. Roedd hwn yn gam rhesymol o ystyried yr arbedion posib o ddefnyddio'r Glasbrint Casgliadau.
Fel y dywedais pan siaradais â'r Pwyllgor, mae'n bendant bod lle am fwy o gysondeb o ran gwasanaethau rheoli gwastraff awdurdodau lleol. Yn ogystal â helpu i leihau y dryswch

posib o ran yr hyn y gellir ac na ellir ei ailgylchu, a sut, byddai'n golygu manteision caffael ac yn helpu i leihau costau.

Mae trefniadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i adolygu'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy. Byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor o ran sut y mae'r adolygiad hwn yn mynd rhagddo. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd â rhanddeiliaid llywodraeth leol.

**4. Costau ailgylchu**

Mae costau ailgylchu a rheoli gwastraff yn ehangach yn cael eu casglu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i hwyluso meincnodi ariannol. Mae adroddiadau meincnodi ar gyfer 2009-10 i 2012-13 wedi'u hatodi.

Yn gywir



**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Mae'r atodiadau i'r papur (adroddiadau meincnodi ar gyfer 2009-10 i 2012-13 ar gael ar dudalen yr ymchwiliad ailgylchu ar wefan y Pwyllgor: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9794